

Cariad

Darlleniad: 1 Ioan 3: 1-3, 11-18

Nesawn atat ti, O! Arglwydd ein Duw, yn enw dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist, gwrthrych mawr ein ffydd a Gwaredwr ein heneidiau.

Deuwn atat gan ddiolch i ti am ddangos maint dy gariad tuag atom yn yr Iesu hwn. Mae dy Air yn ein hannog i feddwl, i sylweddoli ac i weld sut gariad yw dy gariad di:

‘Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom fel y’n gelwid yn feibion i Dduw.’

Anfonaist dy unig-anedig Fab i fyw a marw er ein mwyn, ac i ddangos mor fawr yw dy gariad tuag atom ni. Cariad sy’n dangos consŷrn a diddordeb ynom ni yw dy gariad di, O! Dduw ein Tad. Cariad diddiwedd yw.

‘O! gariad heb ddiwedd na dechrau,
Ar gariad mor rhyfedd rwy’n byw.’

Diolchwn i ti am garu rhai nad ydynt yn haeddu cael eu caru gennyt. Rhyfeddwn dy fod yn caru pobl anffyddlon, anufudd ac annheilwng iawn fel ni sy’n plygu ger dy fron yn awr. Ond fe lwyddaist ti i garu pobl bechadurus:

‘Af ato ef dan bwys fy mai,
A maddau’r camwedd ef a fynn:
Nid yw ei gariad ronyn llai
Er maddau myrdd o’r beiau hyn.
A dyna pam rwy’n llawenhau,
Am fod fy Iesu’n trugarhau.’

Ein caru wnest ti er maint ein gwendidau a’n ffaeleddau i gyd:

‘Fe’m carodd i er maint fy mai,
Ni allaf lai na’i garu.’

Yn sicr, ynot ti, O! Dduw ein Tad, y gwelwyd y cariad mwyaf erioed. Rwyd ti'n gwybod mwy amdanom na neb arall, yn gwybod popeth amdanom ni, yn gwybod sut rai ydym ni, ac eto rwyd yn dal i'n caru. Ni allwn lai na synnu a rhyfeddu a bod yn ddiolchgar am y fath gariad. Gofidiwn yn fawr nad ydym, fel pobl, yn ymateb fel y dylem i'th gariad di. Nid ydym yn dy garu â'n holl galon ac â'n holl feddwl:

‘O! na fyddai cariad Iesu
Megis fflam angerddol gref,
Yn fy nghalon i'w chynhesu,
Fel y carwn innau ef.’

Gwyddom, O! Arglwydd, mai dy ddymuniad, a'th orchymyn di, yw ar i ni garu ein gilydd. ‘Dyma fy ngorchymyn i, ar i chwi garu eich gilydd fel y cerais i chwi.’ Rhaid inni gydnabod nad ydym yn llwyddo i wneud hynny bob amser. Yn aml iawn, wrth inni ddod i wybod mwy am ein gilydd, mae'n cariad ni'n mynd yn llai. Ofnwn hefyd mai caru'r bobl sy'n ein caru ni yn unig a wnawn, er dy fod ti am inni garu pawb. Nid ydym yn llwyddo i garu'r bobl sy'n byw drws nesaf. Nid ydym yn llwyddo i garu'r bobl sy'n mynychu'r un eglwys. Gwyddom, O! Dduw ein Tad, bod rhai pobl yn hawdd eu caru ac eraill heb fod mor hawdd.

Diolch i ti am y rhai sy'n ein caru ni er eu bod yn ymwybodol o'n gwendidau. Rwyd ti, O! Arglwydd, am inni garu pawb, ein cyfeillion a'n gelynion, y rhai sy'n bell a'r rhai sy'n agos. Rwyd ti am inni garu pobl fel y maen nhw.

‘Gwna'n cariad fel dy gariad di
I gynnwys yr holl fyd.’

Nid ydym yn dy garu di os nad ydym yn caru ein gilydd.

Dyro i ddynion ym mhob gwlad ddod i sylweddoli o'r newydd fod cariad yn rhagori ar gasineb, a daioni yn rhagori ar ddrygioni. Gwrando arnom yn ein gweddi, a derbyn ni yn dy gariad a'th drugaredd gan edrych heibio i'n gwendidau amlwg, yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Eifion Jones